CYNGOR SIR Y FFLINT
CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI
RHEOLI RISG LLIFOGYDD A'R ARFORDIR
CAIS AM GANIATÂD DRAENIO TIR

Cyflwyniad

Cyn llenwi'r ffurflen hon fe'ch argymhellir i gysylltu â ni i dderbyn cyngor ar eich cynnig.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr holl nodiadau canllaw a'r ffurflen gais yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.

Dylai gymryd oddeutu 20 munud i lenwi'r ffurflen hon.

Os ydych chi'n ansicr o unrhyw beth ar y ffurflen hon, cysylltwch â ni ar y cyfeiriad e-bost isod:-

E-bost: RheoliRisgLlifogydd@siryfflint.gov.uk

Cynnwys

Adran 1. Manylion yr Ymgeisydd
Adran 2. Buddiant yn y tir
Adran 3. Lleoliad y Gwaith
Adran 4. Disgrifiad a Phwrpas y Gwaith Arfaethedig
Adran 5. Cynlluniau a Thrawsluniau
Adran 6. Manylion Adeiladu
Adran 7. Trwyddedau neu Ganiatâd Ychwanegol
Adran 8. Cymeradwyaeth Cynllunio
Adran 9. Cynnal a Chadw'r Strwythur
Adran 10. Effeithiau ar yr Amgylchedd
Adran 11. Ffioedd
Adran 12. Rhestr wirio
Adran 13. Datganiad

Adran 1 Manylion yr Ymgeisydd:

Enw:

_____

Unigolyn Cyswllt:

_____

Cyfeiriad post gan gynnwys cod post:

_____

_____

_____

_____

Rhif(au) Ffôn:

_____

Cyfeiriad E-bost:

_____

Manylion y Cwmni / Asiant (os yn berthnasol)

Enw:

_____

Swydd:

_____

Cyfeiriad post gan gynnwys cod post:

_____

_____

_____

Rhif Cofrestru'r Cwmni:

_____

Rhif(au) Ffôn:

_____

Cyfeiriad E-bost:

_____

Adran 2 Eich buddiant yn y tir:

2.1 Beth yw eich buddiant yn y tir?

_____

Adran 3. Lleoliad y gwaith arfaethedig:

3.1 Beth yw lleoliad y gwaith arfaethedig?

_____

3.2 Enw'r afon neu'r cwrs dŵr (os yw'n hysbys)

_____

3.3 Cyfeirnod grid cenedlaethol y safle (12 ffigwr)

_____

Adran 4 Disgrifiad a phwrpas y gwaith arfaethedig:

4.1 Rhowch ddisgrifiad o'r gwaith arfaethedig.
(parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen)

4.2 Nifer y strwythurau: _____

Adran 5 Cynlluniau a Thrawsluniau:

5.1 Rhowch ddisgrifiad a chyfeirnod yr holl gynlluniau a thrawsluniau yr ydych wedi'u darparu (gweler y Nodiadau Canllaw). (Parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen)

Adran 6 Manylion adeiladu:

6.1 A yw'r gwaith yn barhaol neu dros dro neu'r ddau?

Parhaol (e.e. ceuffos fynediad) ☐

Dros dro (e.e. sgaffaldiau) ☐

Y Ddau ☐

Os yw dros dro am ba hyd (diwrnodau ac ati):_____

6.2 Dyddiad dechrau a dyddiad terfyn y gwaith adeiladu? (Nodwch isod)

_____

Adran 7 Trwyddedau neu Ganiatâd Ychwanegol:

7.1 A yw'r gwaith arfaethedig yn cynnwys neu'n effeithio ar y canlynol?

Buddiant Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Alldynnu dŵr ☐

Pysgod neu bysgodfeydd ☐

Gwaredu deunydd gwastraff ☐

Rhyddhau dŵr ☐

Prif Afonydd ☐

Ansawdd y Dŵr ☐

Os felly, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000.

Buddiant Cyngor Sir y Fflint

Priffordd Gyhoeddus / Ymyl Ffordd ☐

Hawl Tramwy Cyhoeddus ☐

Adran 8 Caniatâd Arall gan yr Awdurdod:

Llenwch yr adran hon os ydych chi wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith arfaethedig. Fel arall, ewch ymlaen i adran 11.

8.1 Awdurdod Cynllunio:

_____

8.2 Rhif y cais:

_____

Dyddiad: _____

Adran 9 Cynnal a chadw'r strwythur:

9.1 Enw'r person neu sefydliad sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r strwythur

Yn ystod y gwaith adeiladu

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Manylion cyswllt:_____

Ar ôl cwblhau

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Manylion cyswllt:_____

Adran 10 Effeithiau ar yr Amgylchedd:

10.1 Rhowch fanylion bras o effaith y gwaith ar yr amgylchedd ynghyd ag unrhyw gynigion ar gyfer gwella y byddwch yn eu cyflawni neu gamau gweithredu y byddwch yn eu cymryd i ddigolledu am yr effeithiau. (parhewch ar ddalen ar wahân os bydd angen).

Adran 11 Ffioedd:

Swm y ffi yw £50 fesul strwythur sy'n gysylltiedig â'r cais. Os ydych chi'n ansicr o ran y ffi sy'n berthnasol, cysylltwch â **ni** cyn anfon eich cais atom.

Adran 12 Rhestr Wirio:

Darllenwch drwy'r rhestr hon a rhoi tic ar gyfer yr eitemau yr ydych yn eu hanfon gyda'r cais.

Ffurflen wedi'i Llenwi ☐
Ffi (os yn berthnasol) ☐
Copïau o ddarluniau / cynlluniau ☐
Gwybodaeth ategol ychwanegol ☐
Datganiad dull ☐

Adran 13 Datganiad:

Trwy lofnodi (mae llofnod digidol yn dderbyniol) rydych yn datgan bod, hyd eithaf eich gwybodaeth, y wybodaeth a gyflwynir yn y cais hwn, gan gynnwys unrhyw ddogfennau ategol, yn gywir.

Llofnod

Teitl:_____

Enw (llawn): _____

Dyddiad: _____

Y Camau Nesaf:

Dychwelwch y ffurflen hon ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol at RheoliRisgLlifogydd@siryfflint.gov.uk neu drwy'r post:

Cyngor Sir y Fflint
Cynllunio a'r Amgylchedd
Rheoli Risg Llifogydd a'r Arfordir
Tŷ Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint
CH5 3FF

Os ydych chi angen cymorth i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r unigolyn a anfonodd y ffurflen atoch chi neu gysylltu â ni ar y manylion cyswllt isod:-

E-bost: RheoliRisgLlifogydd@siryfflint.gov.uk

I wneud taliad ffoniwch 01352 703440 gan ddyfynnu'r Cod Talu PSD 111 9554

Rhowch wybod os oes gennych chi unrhyw anghenion cyfathrebu megis angen gwybodaeth mewn fformat arall (er enghraifft, mewn print bras, mewn Braille neu ar CD).

Ar gyfer staff Cyngor Sir y Fflint yn unig: **Deddf Draenio Tir 1991**			
Cwrs Dŵr Cyffredin:	Ydi ☐	Nac ydi ☐	Dyddiad derbyn:_____
Ffi yn berthnasol:	Ydi ☐	Nac ydi ☐	Rhif cyfeirnod y ffeil:_____
Ffi wedi'i derbyn:	Ydi ☐	Nac ydi ☐	

Nodiadau Ychwanegol:

Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd eich data'n cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint fel rhan o'n tasg gyhoeddus at ddibenion penodol cymeradwyo gwaith ar gyrsiau dŵr cyffredin dan Adran 23 o Ddeddf Draenio Tir 1991. Gall Cyngor Sir y Fflint rannu eich data i:

- Gynnig dogfennau neu wasanaethau i chi sy'n ymwneud â materion amgylcheddol;
- Ymgynghori â'r cyhoedd, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill (er enghraifft, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Awdurdodau Lleol, y Gwasanaethau Brys, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ar faterion yr amgylchedd;
- Cynnal ymchwil i faterion amgylcheddol a datblygu atebion i broblemau;
- Darparu gwybodaeth o'r gofrestr gyhoeddus i unrhyw un sy'n gofyn;
- Atal unrhyw un rhag torri cyfraith amgylcheddol, ymchwilio achosion lle mae'n bosibl bod cyfraith amgylcheddol wedi'i thorri a chymryd unrhyw gam gofynnol;

Cyfnod Cadw

Pan fydd cais yn **llwyddiannus**, bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw'r ffurflen gais a'r manylion ategol am 6 blynedd. Ar ôl 6 blynedd bydd unrhyw fanylion personol sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r cais yn cael eu dinistrio tra bydd manylion technegol y cais (e.e. darluniau o strwythurau adeiledig) yn cael eu cadw'n barhaol.

Pan fydd cais yn **aflwyddiannus**, bydd Cyngor Sir y Fflint yn storio'r cofnodion am 6 blynedd yn dechrau o'r dyddiad gwrthod. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, bydd manylion personol yn cael eu dinistrio. Bydd manylion technegol y cais (e.e. darluniau o strwythurau adeiledig) yn cael eu cadw'n barhaol.

Proses Gwynion

Os ydych chi'n teimlo bod Cyngor Sir y Fflint wedi camddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch gyflwyno cwyn i'r Swyddog Diogelu Data drwy e-bostio dataprotectionofficer@siryfflint.gov.uk neu drwy'r post:

Swyddog Diogelu Data, Llywodraethu Gwybodaeth,
Cyngor Sir y Fflint,
Tŷ Dewi Sant,
Parc Dewi Sant,
Ewlo,
CH5 3FF.

Fel arall, gallwch gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy fynd i'w gwefan neu trwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan – https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx

CYNGOR SIR Y FFLINT
CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD
RHEOLI RISG LLIFOGYDD A'R ARFORDIR
CAIS AM GANIATÂD DRAENIO TIR

NODIADAU CANLLAW

Darllenwch yr holl nodiadau canllaw a'r ffurflen gais yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.

Cyn llenwi'r cais fe'ch argymhellir i gysylltu â ni i dderbyn cyngor ar eich cynnig.

Mae cost o £50 ar gyfer pob strwythur neu weithrediad ar gyfer ceisiadau a wneir dan Ddeddf Draenio Tir 1991. O dan y Ddeddf hon bydd angen caniatâd os ydych yn dymuno adeiladu ceuffos neu strwythur (fel gored) i reoli llif dŵr ar unrhyw Gwrs Dŵr Cyffredin.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw beth yn y ffurflen gais hon, cysylltwch â ni drwy e-bost:

E-bost: RheoliRisgLlifogydd@siryfflint.gov.uk

Adran 1 - Manylion yr Ymgeisydd

Er mwyn ein galluogi i brosesu eich cais cyn gynted â phosibl, mae angen nodi unigolyn penodol i gysylltu â nhw i egluro unrhyw agweddau o'r cais (eich hun neu gynrychiolydd yn gweithredu ar eich rhan fel asiant, contractwr ac ati). Os ydych chi'n gwneud cais fel Cwmni mae'n rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a dylech ddarparu eich rhif cofrestru.

Adran 2- Buddiant yn y Tir

Pa fuddiant sydd gennych yn y tir (er enghraifft tirfeddiannwr neu denant). Os cyflawnir unrhyw waith ar dir nad yw'n eiddo i chi, bydd angen caniatâd gan y tirfeddiannwr.

Adran 3- Lleoliad y Gwaith

I nodi lleoliad penodol y gwaith arfaethedig. Rhowch fanylion:

- Lleoliad y safle, a'r cod post os yw'n hysbys.
- Enw'r cwrs dŵr, os yw'n hysbys.
- Cyfeirnod Grid Cenedlaethol (12 ffigwr)

Adran 4 - Disgrifiad a phwrpas y gwaith arfaethedig

Mae'n bwysig eich bod yn disgrifio'r cynigion ar gyfer y cais a wneir yn gywir:

- Dewiswch neu nodwch y math o waith yr ydych yn bwriadu ei gyflawni.

- Dewiswch neu nodwch y math o strwythur ar gyfer y gwaith yr ydych yn bwriadu gweithio arno neu adeiladu. Os ydych chi'n sianelu cwrs dŵr, darllenwch 'Polisi Cyngor Sir y Fflint ar Geuffosydd'.

Adran 5- Cynlluniau a Thrawsluniau

Er mwyn ystyried eich cynigion mae angen i ni dderbyn cynlluniau a darluniau, wedi'u llunio gan beiriannydd neu syrfëwr cymwys ac yn nodi Datwm Ordnans Newlyn (uchder uwchben lefel y môr). Dylid nodi nad ydym yn dylunio'r gwaith ar eich rhan. Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfredol dan Reoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu. Bydd angen darparu dau gopi o'r holl ddarluniau perthnasol (un, os anfonir yn electronig). Ni chaiff y darluniau fod yn fwy na A0 mewn maint a dylent gynnwys y canlynol:

Cynllun Lleoliad

Rhaid i hwn fod ar raddfa addas a bod yn seiliedig ar fap Arolwg Ordnans. Rhaid iddo ddangos lleoliad cyffredinol y safle'n glir, lle bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei gynnal, a chynnwys nodweddion cyffredinol ac enwau strydoedd. Mae'n rhaid iddo hefyd nodi'r cwrs dŵr neu gyrff eraill o ddŵr yn yr ardal gyfagos.

Cynllun Safle (Trefniant Cyffredinol)

Mae'n rhaid i chi ddarparu cynllun o'r safle yn dangos:

- Y safle presennol, gan gynnwys unrhyw gwrs dŵr.
- Eich cynigion.
- Lleoliad unrhyw strwythurau a allai ddylanwadu ar hydroleg afonydd lleol, gan gynnwys pontydd, pibelli a dwythellau, ffyrdd o groesi'r cwrs dŵr, ceuffosydd a sgriniau, argloddiau, waliau, arllwysfeydd ac ati, gan gynnwys bylchau pysgod presennol neu strwythurau sy'n gadael i bysgod basio fyny a lawr yr afon.
- Dylid dylunio'r cynllun i raddfa briodol sy'n gorfod ei ddatgan yn glir

Croestoriadau

Lle mae gwaith yn tresbasu ar unrhyw gwrs dŵr, dylech roi croestoriadau, i fyny ac i lawr yr afon, o'r gwaith arfaethedig. Dylid llunio croestoriadau fel pe baech yn edrych i lawr yr afon ar y cwrs dŵr a dylid cynnwys manylion nodweddion presennol a bwriedig, a lefelau dŵr.

Trawsluniau Arhydol

Mae angen trawsluniau arhydol wedi'u cymryd ar hyd llinell ganol y cwrs dŵr. Mae'n rhaid i'r rhain ddangos nodweddion presennol a bwriedig y lefelau dŵr, lefelau'r gwely a strwythurau. Dylent ymestyn i fyny ac i lawr yr afon o'r gwaith arfaethedig.

Darluniau Manwl

Mae'r rhain yn dangos manylion y nodweddion presennol a bwriedig, fel y canlynol:

- Y deunydd a ddefnyddir ar gyfer unrhyw strwythur.
- Lleoliad unrhyw bibellau neu geblau gwasanaeth bwriedig, a all effeithio ar gynnal a chadw'r cwrs dŵr yn y dyfodol;
- Manylion unrhyw goeden, llwyn, gwrychoedd, pwll, neu ardal o wlypdir y gall y gwaith arfaethedig effeithio arnynt.

- Manylion unrhyw waith plannu neu hadu.
- Argloddiau a choredau, rydym angen cynllun yn dangos graddfa'r dŵr a gronnir (a ddelir yn ôl) o dan amodau arferol a llifogydd, fel y gallwn asesu effaith bosibl ar y tir wrth ymyl yr afon. Rhaid i'r cynlluniau hefyd ddangos unrhyw ddraeniau tir cyfagos y gellir effeithio arnynt.

Cyfrifiadau

Lle bo'n briodol dylid cyflwyno cyfrifiadau dylunio strwythurol a draenio ar gyfer y strwythur/au.

Adran 6 - Manylion Adeiladu

Bydd angen caniatâd ar wahân ar gyfer gwaith parhaol a thros dro nad yw'n ffurfio rhan o'r gwaith parhaol. Gallai gwaith dros dro gynnwys, er enghraifft, argae coffr (ardal gaeedig sy'n dal dŵr) ar draws y cwrs dŵr, neu wyro dŵr dros dro tra cyflawnir y gwaith.

Ar gyfer gwaith parhaol a thros dro bydd angen i ni wybod sut yr ydych yn bwriadu cyflawni'r gwaith. Bydd angen i chi anfon **Datganiad Dull** sy'n cynnwys manylion y mesurau penodol yr ydych yn bwriadu eu cymryd i leihau aflonyddwch a chyfyngu unrhyw effeithiau diangen tra bo'r gwaith yn cael ei gyflawni. Mae angen i ni wybod pryd yr ydych yn bwriadu cyflawni'r gwaith a faint y bydd yn ei gymryd. Wrth gynllunio'r gwaith, bydd angen sicrhau eich bod wedi caniatáu digon o amser i ni ystyried eich cais.

Adran 7 - Trwyddedau neu Ganiatâd Ychwanegol

Ticiwch y blychau priodol. Os ydych chi'n rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau, mae'n debyg y bydd angen trwyddedau neu ganiatâd ychwanegol gan Gyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Sir y Fflint cyn dechrau'r gwaith.

Adran 8 - Cymeradwyaeth Cynllunio

Llenwch yr adran hon os ydych chi wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith arfaethedig neu os yw'r gwaith yn rhan o gais cynllunio sy'n bodoli eisoes.

Adran 9 – Cynnal a Chadw'r Strwythur

Nodwch pwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r strwythur yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu. Nodwch gyfeiriadau llawn a manylion cyswllt addas.

Adran 10 - Effeithiau ar yr Amgylchedd

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i amddiffyn a gwella'r amgylchedd, felly mae'n rhaid i ni ystyried effaith amgylcheddol eich cynnig. Efallai y bydd angen i chi gynnal arfarniad amgylcheddol i asesu effeithiau eich gwaith. Dylech gysylltu â ni cyn i chi anfon eich cais atom, fel y gallwn roi cyngor ar hyn. Os na wnewch chi wneud hyn, efallai y bydd oedi gyda'ch cais.

Dylai'r arfarniad amgylcheddol nodi ac ystyried yr holl effeithiau tebygol ar yr amgylchedd. Dylech ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sydd gan y gwaith ar safleoedd a nodweddion o ddiddordeb a rhywogaethau o werth arbennig.

Cynhwyswch unrhyw fesurau penodol rydych yn bwriadu eu cadw i greu cyn lleied o aflonyddwch â phosibl, a lleihau unrhyw effeithiau diangen tra cynhelir y gwaith.

Nodwch unrhyw gyfleoedd i chi wella gwerth amgylcheddol y safle. Gall hyn gynnwys creu nodweddion dŵr, plannu coed a llwyni a fyddai fel arfer yn tyfu ar y safle, darparu bocsys nythu i adar neu greu mannau cynaliadwy i fywyd gwyllt gael byw ynddynt.

Os ydym wedi gofyn am arfarniad amgylcheddol fel rhan o ganiatâd cynllunio, dylech ei anfon atom gyda'r holl ddogfennau ategol sydd eu hangen arnom.

Os yw eich safle'n dod o fewn safle gwarchod natur, neu wrth ei ymyl, neu'n gysylltiedig ag ef, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod eich cynigion cyn i chi anfon eich cais atom.

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd Ewropeaidd, mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw Caniatâd Draenio Tir yn cael effaith negyddol uniongyrchol neu anuniongyrchol ar unrhyw safle a nodir yn y rheoliadau, yn cynnwys:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Dynodedig (ACA)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
- Safleoedd RAMSAR rhestredig
- Henebion Cofrestredig (HC)

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, mae'n rhaid i ni ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (neu CADW yn achos cofebion hynafol). Efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'r sefydliadau hyn eich hun i gael eu safbwyntiau ar eich cynnig.

Adran 11 - Ffioedd

Y ffi ar gyfer Caniatâd Draenio Tir yw £50 am bob strwythur.

Y dulliau talu a dderbynnir:

- Siec yn daladwy i 'Cyngor Sir y Fflint'
- Gellir talu gyda cherdyn debyd / credyd drwy gysylltu â ni ar 01352 703440 a dyfynnu Cod Talu PSD 111 9554 a rhif cyfeirnod OWR y cais.
- Arian parod **(peidiwch ag anfon arian drwy'r post).**

Adran 12 - Rhestr Wirio

Darllenwch drwy'r rhestr hon a chadarnhau'r eitemau yr ydych yn eu hanfon gyda'r cais. Os yw'r cais yn cael ei anfon yn electronig dim ond un copi o'r dogfennau ategol sydd ei angen.

Adran 13 - Datganiad

Gofynnir i chi gadarnhau bod y wybodaeth yr ydych wedi'i chyflwyno yn y cais, hyd eithaf eich gwybodaeth, yn gywir. Sylwer: Nid yw Cyngor Sir y Fflint, drwy roi Caniatâd dan Ddeddf Draenio Tir 1991, yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o ddylunio, adeiladu, cynnal a chadw neu ddefnydd.

Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais sydd heb ei lofnodi.